cta uk

Cymdeithas
Cludiant
Cymunedol

CYNLLUN STRATEGOL CTA Y DU

2011/12 i 2013/14



CYFLWYNIAD
gan Gadeirydd y CTA

Dros y blynyddoedd nesaf yma bydd sefydliadau cludiant cymunedol a'r CTA ei hun yn wynebu sialensiau mawr – yn ogystal â chyfleoedd newydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gwasgfa fwy nag erioed ar wariant cyhoeddus, mwy o ddatganoli gwneud penderfyniadau'n lleol a'r symud parhaus tebygol oddi wrth gymorth grant i wasanaethau dan gomisiwn/cystadleuaeth.
- angen cynyddol am gludiant cymunedol gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, rhagolygon cyflogaeth mwy anodd a phwysau difrifol ar fathau eraill o gludiant wrth i wariant cyhoeddus gael ei dorri yn ôl.
- cyfleoedd newydd i gynnig atebion cludiant cyhoeddus arloesol, lleol, cost-effeithiol fel ehangu'r defnydd o wasanaethau adran 22 a chynnig rhedeg gwasanaethau na all awdurdodau lleol na gweithredwyr masnachol eu darparu mwyach.

Er mwyn ffynnu, bydd angen i sefydliadau cludiant cymunedol fod yn arloesol ac yn greadigol. Bydd yn rhaid iddynt ddangos sut mae cludiant cymunedol yn rhan o'r ateb i anghenion lleol – a dangos y "gwerth cymdeithasol" maen nhw'n ei ddarparu. Bydd angen iddynt ddangos safonau uchel, proffesiynoldeb ac effeithlonrwydd. Dylent fod yn drefnus, gan sicrhau bod gwasanaethau wedi'u prisio a'u cyllido ar sail gynaliadwy a bod buddsoddi'n dal i ddiogelu'r gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli ynghyd ag adeiladu capasiti ar gyfer y dyfodol.

Ond ar yr un pryd, mae angen i'r sector ddal gafael ar ei ethos a'i werthoedd nodedig, yn enwedig ei amcanion cymdeithasol cryf, ei ffocws ar y gymuned a'i allu i alw ar wirfoddolwyr.

Bydd y CTA yn hybu'r sector cludiant cymunedol, yn genedlaethol ac yn lleol, yn ystod yr amserau heriol yma. Byddwn yn cefnogi ein haelodau gyda gwybodaeth, arweiniad a gwasanaethau proffesiynol, yn hybu'r cyfleoedd sydd i'w cael ac yn dangos proffesiynoldeb ac effeithlonrwydd ym mhopeth rydym yn ei wneud. Mae'r cynllun strategol hwn yn nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni hynny.

Stephen Hickey

STEPHEN HICKEY

CLUDIANT CYMUNEDOL

Beth yw e a beth mae'n ei wneud?

MAE CLUDIANT CYMUNEDOL:

- yn darparu gwasanaethau cludiant hanfodol, ymatebol ar gyfer ystod eang o bobl a chymunedau – yn aml iawn y rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas. Dyma'r bobl sy'n methu â defnyddio neu heb fynediad at geir, tacsis neu fysiau addas ac sy'n dibynnu ar gludiant cymunedol i gael y gwasanaethau a'r gweithgareddau cymdeithasol sydd eu hangen arnynt.
- yn cael ei symbylu gan werthoedd bod yn gymydog da – yr awydd i helpu'r sawl sydd mewn angen i fyw bywydau llawnach, mwy gweithgar ac i hybu rhyddid, tegwch a chyfle – yn hytrach na chreu elw.
- yn darparu atebion diogel, hygyrch, cost-effeithiol, hyblyg sydd wedi'u datblygu er mwyn bodloni anghenion cludiant lleol penodol ac fel arfer, yn cael ei redeg gan y gymuned ar gyfer y gymuned ar sail ddielw.
- a rôl ddeuol o ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol i unigolion ac i gymunedau nad yw eu hanghenion yn cael eu bodloni gan gludiant preifat a chyhoeddus prif lif yn ogystal â chefnogi ystod enfawr o sefydliadau gwirfoddol a chymdeithas sifil eraill gyda'u hanghenion o ran cludiant.
- yn dangos yr hyn y gellir ei wneud pan fydd pobl yn cymryd cyfrifoldeb am ddatrys eu problemau eu hunain. Mae'n ysgogi ac yn ymgysylltu â chymunedau lleol gan ei fod yn cael ei ddarparu gan elusennau a mudiadau gwirfoddol (sydd yn aml yn fach iawn ac yn lleol), ac mae'n elwa o brofiad ac egni gwirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser am ddim i helpu eraill.
- yn dangos yr hyn y mae llywodraeth y DU yn cyfeirio ato fel y 'gymdeithas fawr' ar waith. Bob dydd, mae sefydliadau cludiant cymunedol yn elwa o egni a phrofiad miloedd o wirfoddolwyr ar draws y wlad i ateb y ffonau, trefnu gwasanaethau, gyrru cerbydau a sicrhau bod teithwyr yn cael eu cludo'n ddiogel. Hefyd, mae sefydliadau lleol yn cyflogi pobl lle bo angen, gan ddarparu hyfforddiant a swyddi mewn lleoedd lle mae'r rhain weithiau yn brin.
- yn amlwg yn hanfodol i fywydau pobl fregus a dan anfantais mewn ardaloedd gwledig a threfol. Lle bo cludiant yn gyfyngedig, cludiant cymunedol sy'n mynd â phobl i'r gwaith, i addysg, i'r eglwys, i'r ysbyty, i'r siopau ac i ymweld â ffrindiau. Mae hyn yn rhoi rhyddid, urddas a hunan-barch i bobl, yn gadael iddynt gyflawni eu dyheadau, aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ac yn datblygu'r rhwymau sy'n cadw teuluoedd a chymunedau'n gryf.

PA FATH O WASANAETHAU SY'N CAEL EU DARPARU GAN GLUDIANT CYMUNEDOL?

Mae sefydliadau cludiant cymunedol yn amrywiol iawn. Maent yn gweithredu ar sawl lefel gan amrywio o'r bach i'r mawr ac o'r rhai sy'n dibynnu ar wirfoddolwyr yn unig i'r rhai sy'n cyflogi llawer o staff. Nod maint a graddfa'r gweithredu yw bod yn addas ar gyfer anghenion lleol.

Er bod sefydliadau cludiant cymunedol unigol yn darparu cymysgedd gwahanol o wasanaethau, mae 'dewislen' y sector cludiant cymunedol ar y cyfan yn ddigon eang. Mae'n cynnwys:

- **cynlluniau ceir cymunedol**, lle mae gwirfoddolwyr yn gyrru eu ceir eu hunain a'u costau yn ôl y milltiroedd a deithiwyd yn cael eu had-dalu. Dyma wasanaeth cludiant hyblyg a hygyrch sy'n ymateb i'r galw ar gyfer unigolion a grwpiau sy'n methu â chyrchu cludiant cyhoeddus oherwydd anawsterau symudedd, afiechyd, llesgedd neu fynediad cyfyngedig.
- **gwasanaethau cludiant grŵp**, gwasanaethau o ddrws i ddrws a galw'r gyrrwr ar gyfer unigolion, gan ddefnyddio bysiau mini a weithredir o dan drwyddedau bws mini adran 19 (adran 10b yng Ngogledd Iwerddon).
- **"Wheels to Work"**, llogi mopedau a beiciau a darparu gwasanaethau cludiant eraill er mwyn i bobl allu mynd i'r gwaith neu i brentisiaeth neu i hyfforddiant a fydd yn arwain at waith a gyrfaoedd tymor hir.
- **gwasanaethau "teithio a gynorthwyir" dan gontract**, fel cludiant cartref-i'r-ysgol, cleifion nad ydynt yn rhai brys neu ofal cymdeithasol, a weithredir ar sail ddi-elw, gyda'r un bysiau mini yn cael eu defnyddio wedyn er lles y gymuned y tu allan i'r oriau dan gontract.
- **gwasanaethau bysiau sy'n ymateb i'r galw neu'n llwybr penodol** a weithredir o dan adran 22, gan lenwi'r bylchau rhwng llwybrau bysiau coets fawr traddodiadol.

Y CTA

Beth yw e a beth mae'n ei wneud?

Y CTA:

- mae'n elusen ar draws y DU sy'n darparu arweiniad, dysg a chefnogaeth i'r sefydliadau sy'n aelodau ohono, sydd yn eu tro yn darparu atebion cludiant arloesol a hyblyg i esgor ar newid cymdeithasol yn eu cymunedau.
- mae'n cynrychioli llais y sector i gyrff llywodraethol ac i brif randdeiliaid eraill, gan amlygu pwysigrwydd cludiant cymunedol i unigolion bregus ac i gymunedau ynysig, y cyfraniad y gall cludiant cymunedol ei wneud yn lleol ac yn genedlaethol a'r materion y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn gwireddu potensial y sector.
- mae'n hybu rhagoriaeth trwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau a chefnogaeth, gan gynnwys cyngor, hyfforddiant, adnoddau ar y we, cyhoeddiadau, ymgynghori, digwyddiadau a chefnogaeth prosiect ar gyfer cludiant gwirfoddol, cymunedol a hygyrch.

Felly, nod y CTA yw cryfhau gwaith ein haelodau sy'n cynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, elusennau, mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a chydfuddiannol, trwy greu amgylchedd lle y gallant ffynnu a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'r bobl a'r cymunedau sy'n dibynnu ar gludiant cymunedol i fodloni eu hanghenion.

Hefyd, rydym yn awyddus i ymestyn a chefnogi sefydliadau cymdeithas sifil eraill nad ydynt o bosibl yn eu gweld eu hunain yn darparu cludiant cymunedol, ond sydd eto yn gweithredu cludiant er mwyn bodloni eu dibenion eu hunain.

Er mwyn darganfod mwy am fanteision ymuno â'r CTA, ewch i www.ctauk.org neu ffoniwch ein tîm aelodaeth ar 0161 351 1475.

GWELEDIGAETH Y CTA YW:

"Cymdeithas fwy teg lle mae gan bawb, ble bynnag maent yn byw neu beth bynnag eu hamgylchiadau unigol, y symudedd a'r gwasanaethau cludiant hygyrch sydd eu hangen arnynt er mwyn iddynt fyw bywydau llaw a gweithgar."

Bydd y CTA yn hybu hyn trwy:

- gynrychioli safbwyntiau sefydliadau cludiant gwirfoddol a chymunedol yn y DU er mwyn dylanwadu ar lywodraethau ar bob lefel ac adeiladu cefnogaeth a buddsoddiad ar gyfer ein sector.
- ysbrydoli a grymuso ein haelodau ar draws y DU trwy arweiniad, dysg a chefnogaeth ac annog cyfranogiad brwd er mwyn esgor ar newid.
- gweithio tuag at system cludiant sy'n coleddu gwasanaethau cludiant hygyrch, yn y gymuned i sicrhau cymdeithas fwy teg a chymunedau cynaliadwy.

GWERTHOEDD Y CTA YW:

- **Tegwch:** rydym yn hybu cyfle cyfartal, cyfiawnder cymdeithasol a chymunedau cynhwysol i bawb, trwy hygyrchedd ac amrywiaeth.
- **Unplygrwydd:** mae ein perthnasau wedi'u seilio ar ymddiriedolaeth, ewyllys da a chefnogaeth. Rydym yn gyfrifol ac yn effeithlon gyda'n hadnoddau ac yn dryloyw o ran popeth rydym yn ei wneud.
- **Arloesi:** rydym yn cefnogi ein haelodau, ein staff a'n hymddiriedolwyr i wthio'r ffiniau a datblygu ffyrdd newydd o weithio. Mae hyn yn cynnwys asesu cyfleoedd, cael gwared ar rwystrau, cymryd risgiau a gweithio mewn ffordd fwy entrepreneuraidd.
- **Ymgysylltu:** rydym yn defnyddio gwaith tîm, cydweithredu a phartneriaethau i gysylltu â phobl a sicrhau bod unrhyw ymwneud â'r CTA yn gadarnhaol. Rydym yn gwrando ar adborth ac yn ymateb iddo ac yn hybu ansawdd ym mhopeth rydym yn ei wneud.

CYFARWYDDIADAU A GWEITHREDU STRATEGOL Y CTA

Bydd y pum cyfarwyddyd strategol cyffredin isod a'r gweithredu cefnogol lefel uchel sy'n llifo oddi wrthynt yn arwain ein gwaith ar draws y DU dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r CTA yn cydnabod datganoli'n llawn ynghyd â'r polisïau a'r dulliau gweithredu gwahanol a fabwysiedir gan lywodraethau yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Er mwyn adlewyrchu'r amrywiaeth hwn, byddwn yn cynhyrchu cynlluniau busnes blynyddol mwy manwl ar gyfer pob gwlad. Bydd cynllun busnes blynyddol ar draws y CTA yn nodi gweithgareddau penodol y dymunwn eu cynnal ar draws y pedair gwlad, fel ymgysylltu â'r aelodaeth. Caiff y cynlluniau hyn eu diwygio bob blwyddyn.

Dyma ein pum cyfarwyddyd strategol a'r gweithredu cefnogol lefel uchel a geir ar sail y rhain.

1. CEFNOGI A GWEITHIO GYDA'N HAELODAU

Mae ein haelodau wrth galon y CTA. Ein prif bwrpas yw eu cefnogi trwy greu amgylchedd lle gallant ddatblygu a ffynnu, gan sicrhau ein bod yn dal i gynnig y gefnogaeth a'r help uniongyrchol sydd eu hangen arnynt. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- sicrhau y rhoddir gwybodaeth lawn i'n holl aelodau am unrhyw ddatblygiadau polisi, cyfreithiol a thechnegol a all roi cyfleoedd iddynt wella eu gwasanaethau, eu perfformiad neu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â nhw.
- cyflwyno rhaglen ymgysylltu â'r aelodaeth newydd o 2012 gyda rhwydweithiau cefnogi aelodau lleol a rhanbarthol yn Lloegr, gan adeiladu ar lwyddiant ein cynadleddau cenedlaethol a'n sioeau teithiol rhanbarthol.
- datblygu ffyrdd newydd o ymgysylltu â'n haelodau'n electronig, trwy fwy o fuddsoddi yn ein gwefan, datblygu ein gwasanaethau ar-lein a defnyddio cyfryngau cymdeithasol.
- adnewyddu ein cynnig o ran hyfforddiant fel bod mynediad gan ein haelodau i atebion sgiliau arloesol a pherthnasol i fodloni eu hanghenion.
- cefnogi aelodau sy'n wynebu pwysau penodol, fel arferion comisiynu amhriodol a chystadleuaeth annheg.
- cefnogi gwirfoddoli ar draws ein sector a datblygu ymhellach gefnogaeth benodol ar gyfer ein haelodau sy'n sefydliadau gwirfoddol heb staff cyflogedig.

2. DARPARU LLAIS CENEDLAETHOL

Ein nod yw darparu llais cenedlaethol i'n haelodau, i'r sector cludiant gwirfoddol a chymunedol ehangach ac i'r unigolion a'r cymunedau y mae ein haelodau yn eu gwasanaethu.

Byddwn yn sicrhau bod y pedair llywodraeth yn deall y cyfraniad y mae cludiant cymunedol yn ei wneud tuag at fodloni anghenion pobl dan anfantais a sut y gall system cludiant cynhwysol sy'n darparu dewis a mynediad i'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl, helpu i gyflawni nodau economaidd a chymdeithasol ehangach. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- parhau i weithio gyda llywodraethau'r DU a'r gwledydd datganoledig i sicrhau bod cyfraniad cludiant cymunedol yn cael ei adlewyrchu mewn polisïau a deddfwriaeth genedlaethol.
- cyfrannu at drafodaethau polisi penodol i sicrhau cydnabyddiaeth lawn o'r cyfraniad y gall cludiant cymunedol ei wneud a bod ein haelodau yn deall ac yn ymwybodol o'r hyn y gall polisïau o'r fath ei olygu iddynt.
- sicrhau bod proffil cludiant cymunedol a gwaith ein haelodau'n fwy gweladwy a'n bod yn cyfleu pwysigrwydd cludiant cymunedol a'r cyfraniad y gall ei wneud tuag at gymdeithas fwy teg.
- hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy'r CTA, i'n haelodau ac mewn polisi cenedlaethol a'r ddarpariaeth cludiant leol.
- ymgysylltu â darparwyr cludiant eraill fel bod cludiant cymunedol yn chwarae ei rôl wrth sicrhau y gall pawb gael at y cludiant sydd ei angen arnynt.
- ehangu cyswllt y CTA ag adrannau'r llywodraeth ar bob lefel, â'r prif bartneriaid cymdeithas sifil ac â chyrff yn y diwydiant.
- adeiladu ymhellach ein trysorfa dystiolaeth ar gludiant cymunedol a datblygu ein hadroddiadau Cyflwr y Sector ar draws y DU.
- sicrhau bod yna gyfleoedd i'n haelodau mewn digwyddiadau rhyngwladol mawr fel y Gemau Olympaidd, Paralympaidd a Gemau'r Gymanwlad.
- ymgysylltu â sefydliadau gwirfoddol eraill nad ydynt â chludiant fel pwrpas sylfaenol iddynt ond lle mae cludiant yn hanfodol iddynt lwyddo.

3. CYSYLLTU'N LLEOL

Gan gydnabod y duedd tuag at benderfynu a chyllido'n lleol, byddwn yn annog ein haelodau i ymgysylltu'n frwd â'u hawdurdodau cludiant lleol. Byddwn yn hybu rhwydweithio a chyd-gymorth lleol ac yn hwyluso cyfleoedd a mentrau strategol mewn ardaloedd neu gymunedau penodol. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- dilyn gweithredu Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 yn agos gydag awdurdodau cludiant lleol a chyda'n haelodau i hybu'r defnydd llawn o'r darpariaethau a'r cyfleoedd newydd a gynhwysir yn y Ddeddf.
- ymgysylltu â'n haelodau ac ag awdurdodau cludiant lleol a rhanbarthol i gefnogi mentrau cynyddu capasiti ar draws ein sector;
- annog ein haelodau i rwydweithio, hybu cyd-gymorth, rhannu sgiliau a chefnogi cydweithio lleol a gweithio mewn consortia.
- hwyluso cyfleoedd a mentrau strategol mewn ardaloedd neu gymunedau penodol.

4. HYBU SAFONAU UCHEL

Byddwn yn hybu safonau uchel ar draws ein sector ac yn helpu ein haelodau i ddangos ansawdd a thraweffaith eu gwasanaethau. Byddwn yn hybu caffael mwy call a gwell comisiynu er mwyn i adnoddau cludiant ein haelodau fedru cael eu defnyddio'n well, er enghraifft, gan ddarparwyr iechyd ac addysg, a fydd o fudd i'r gymdeithas yn gyffredinol. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- gweithio gydag aelodau a rheoleiddwyr i gyflwyno a hybu Marc Ansawdd CTA.
- hybu agenda menter gymdeithasol a darparu cefnogaeth a hyfforddiant perthnasol i'n haelodau sy'n dymuno ymwneud â'u gwaith mewn dull mwy entrepreneuraidd, gan dynnu ar brofiad perthnasol fel ein Rhaglen Menter Gymdeithasol Wledig yn Lloegr.
- hybu'r defnydd o asesiadau effaith gymdeithasol a chefnogi aelodau wrth ddefnyddio technegau fel archwilio cymdeithasol ac enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad i ddangos gwerth eu gwaith.
- cyflwyno “Adduned i'r Aelodau” fel rhan o'n proses ymgeisio ac adnewyddu er mwyn dod yn aelod o'r CTA.
- hybu arloesi ac arfer gorau o ran caffael i aelodau ac i gomisiynwyr gwasanaethau cludiant cyhoeddus.
- hybu gweithio ar draws sectorau i ddangos y manteision o ran cost a geir trwy gludiant cymunedol, er enghraifft, yng nghyd-destun y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
- hybu menter “Gwneud y Sector yn fwy Gwyrdd” sy'n cwmpasu ein gwaith polisi amgylcheddol, hyfforddiant a phecyn cymorth i'r aelodau asesu eu perfformiad amgylcheddol eu hunain.
- sicrhau bod cludiant cymunedol yn cael ei gydnabod fel rhan o'r agenda cludiant cynaliadwy a chanddo'r mynediad gorau oll i fentrau cyllido gwyrdd er mwyn sicrhau lleihau carbon.

5. SICRHAU CYMDEITHAS EFFEITHIOL AR DRAWS Y DU

Byddwn yn gwella trefniadaeth fewnol, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y CTA ei hun yn barhaus. Ar adeg sy'n ddigon heriol, mae'n rhaid i ni ymateb i anghenion cyfnewidiol ein haelodau, hybu'r sector yn frwd a sicrhau cyllid a chynaliadwyedd y CTA ei hun. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- datblygu ein rhaglen aelodaeth a'n cynnig i aelodau, gan gydnabod yr amrywiaeth yn ein sector a'r tu hwnt a chydnabod bod gan sefydliadau gwahanol anghenion gwahanol.
- datblygu strategaeth cyfathrebu sy'n cwmpasu'r cyfryngau print, y wefan, rhwydweithio cymdeithasol a chyfathrebu electronig.
- monitro gweithredu ein Hadolygiad Llywodraethu diweddar i sicrhau ei fod yn cyflawni ei bwrpas ac yn rhoi CTA sy'n “gymwys ar gyfer ein dyfodol”.
- datblygu ein sylfaen ariannol, gan gynnwys rôl CTA Consultancy, er mwyn sicrhau bod y CTA yn dal i fod yn gynaliadwy yn y dyfodol.
- sicrhau bod ein strwythur trefniadaethol yn aros yn addas o ran cyflwyno'r cynllun strategol a'r heriau newydd sydd o'n blaenau.
- cydnabod ac ymateb i'r tirweddau gwleidyddol a chyfarwyddiadau polisi dargyfeiriol ym mhob gwlad trwy ein timau yn Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

MESUR EIN TRAWEFFAITH A'N PERFFORMIAD

Byddwn yn cynhyrchu adroddiad adolygu a thraweffaith blynyddol ar ein gwaith a byddwn yn mesur ein perfformiad ar amrywiaeth o weithgareddau. Bydd hyn yn cynnwys mesurau ansoddol yn ogystal â mesurau meintiol. Hefyd, ceisiwn adborth gan ein haelodau mewn amrywiaeth o ffyrdd.

CYSYLLTIADAU

SWYDDFA GANOLOG
Highbank, Halton Street, Hyde,
Swydd Gaer, SK14 2NY
Ffôn: 0161 351 1475
Ffacs: 0161 351 7221
Ebost: info@ctauk.org
www.ctauk.org

GWASANAETH CYNGOR A GWYBODAETH
Ffôn: 0845 130 6195
Ffacs: 0161 351 7221
Ebost: advice@ctauk.org

SWYDDFA LLUNDAIN
4ydd Llawr, Kingsgate,
1 Bravingtons Walk, Llundain,
N1 9AE
Ffôn: 020 7278 2528
Ffacs: 020 7278 7031

SWYDDFA GOGLEDD IWERDDON
Ystafell 109 City East, 68-72 Newtownards Road,
Belfast, BT4 1GW
Ffôn: 028 9094 1661
Ffacs: 028 9094 1662

SWYDDFA'R ALBAN
46a Channel Street,
Galashiels, TD1 1BA
Ffôn: 01896 668855
Ffacs: 01896 752033

SWYDDFA DE CYMRU
Ystafell 10, Canolfan Forge Fach,
Heol Hebron, Clydach,
Abertawe, SA6 5EJ
Ffôn: 01792 844290
Ffacs: 01792 845877

SWYDDFA GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU
Uned 17, Neuadd Morfa, Stryd yr Eglwys,
Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3AA
Ffôn: 01745 356751
Ffacs: 01745 356753

CTA CONSULTANCY
Ffôn: 028 9094 1664
Ffacs: 028 9094 1662
Ebost: consultancy@ctauk.org



cta uk

Cymdeithas Cludiant Cymunedol

www.ctauk.org

Hawlfraint CTA y DU Mawrth 2011
Mae Sefydliad Cludiant Cymunedol y DU yn gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant
Cofrestrwyd yng Nghaerdydd rhif 1985361. Elusen gofrestredig rhif 1002222.
Elusen wedi'i chofrestru yn yr Alban rhif SC038518. Rhif cofrestru TAW 425 7711 50
Cofrestrwyd CTA Trading Cyfyngedig yng Nghaerdydd rhif 2800636. Rhif cofrestru TAW 606742935.
Cyhoeddwyd gan y CTA ym mis Mawrth 2011.